

# Adroddiad Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Anabledd Cymru

Sicrhau bod disgyblion anabl yr un mor debygol o fwynhau gweithgarwch corfforol a chwaraeon gydol oes â disgyblion nad ydynt yn anabl.

## Crynodeb

Yn gyffredinol, mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn darparu gwybodaeth am lefelau cyfranogiad, ymddygiad disgyblion, ac agweddau disgyblion tuag at chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn ogystal â dealltwriaeth o hyder a gallu athrawon wrth gyflwyno gwersi Addysg Gorfforol (AG) cynhwysol. Mae'r pwyntiau gwybodaeth allweddol wedi'u hamlygu isod:

- Mae disgyblion sy'n nodi bod ganddynt anabledd neu nam yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon ddwywaith neu fwy yr wythnos y tu allan i'r cwricwlwm na disgyblion heb anabledd.
- Mae disgyblion sy'n nodi bod ganddynt anabledd neu nam yn llai tebygol o ddweud eu bod yn mwynhau AG a chwaraeon allgyrsiol a chlwb yn fawr na disgyblion heb anabledd.
- Y chwaraeon clwb cymunedol sydd â'r nifer uchaf o ddisgyblion sy'n nodi bod ganddynt anabledd neu nam ac sy'n cymryd rhan unwaith yr wythnos o leiaf yw pêl droed, nofio a rygbi.
- Mae disgyblion a nododd fod ganddynt anabledd neu nam yn llai hyderus wrth roi cynnig ar weithgareddau neu chwaraeon newydd.
- Ar gyfer disgyblion a nododd fod ganddynt anabledd neu nam, mae'r ganran fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn sefyll neu'n cerdded, gyda chanran fawr o ddisgyblion yn cael cymorth gan berson arall.
- Mae disgyblion a nododd fod ganddynt anabledd neu nam yn llai tebygol o gredu bod eu AG a'u chwaraeon ysgol yn cyfrannu at ffordd o fyw iach.
- Amlygodd ymatebion yr athrawon i'r Arolwg Chwaraeon Ysgol bod athrawon yn hyderus ac yn gwybod sut i gyflwyno AG gynhwysol, ac eto nid oes gan 40% o athrawon yr offer angenrheidiol i gyflwyno gwersi AG cynhwysol.

O'r Arolwg Chwaraeon Ysgol, rydym yn deall bod disgyblion sy'n nodi bod ganddynt anabledd neu nam yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon ac yn fwy tebygol o fod yn segur. Felly, mae angen i gyrff rheoli chwaraeon, awdurdodau lleol yng Nghymru, a sefydliadau Cenedlaethol wneud mwy i ddarparu cyfleoedd chwaraeon i ddisgyblion anabl a disgyblion sydd â nam. Mae'n bwysig newid yr ymddygiad hwn, oherwydd gall effeithio ar y disgyblion anabl am weddill eu hoes. Yn ogystal, amlygodd yr Arolwg Chwaraeon Ysgol bod gan fwy o ddisgyblion sydd ag anabledd neu nam alw heb ei fodloni am chwaraeon o gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl. Er mwyn cynyddu cyfranogiad, hoffai disgyblion anabl weld mwy o gyfleoedd chwaraeon yn cael eu creu sy'n diwallu eu hanghenion.

## Cenedl Actif

### Cyflwyniad

Nod Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru oedd rhoi llais i bobl ifanc am chwaraeon a lles yng Nghymru. Mae'r arolwg yn rhoi gwybodaeth gyfoethog i'r sector am lefelau cyfranogiad plant, eu hymddygiad, a'u hagwedd tuag at chwaraeon. Ochr yn ochr â hyn, mae hefyd yn rhoi cipolwg ar wybodaeth a hyder athrawon wrth gyflwyno addysg gorfforol gynhwysol i blant mewn ysgolion. Mae'r adroddiad hwn wedi cymryd y data a'r wybodaeth a gasglwyd ac a ddadansoddwyd gan Chwaraeon Cymru (ac ymgynghorwyr) i greu adroddiad gwybodaeth ar gyfer Chwaraeon Anabledd Cymru a sefydliadau partner am y data a'r wybodaeth benodol sy'n ymwneud â disgyblion anabl yng Nghymru. Cymerodd cyfanswm o fwy na 115,000 o ddisgyblion a bron i 950 o athrawon ran yn Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru. O blith y disgyblion hynny a gwblhaodd yr arolwg, nododd 5,353 (5%) bod ganddynt anabledd neu nam a nododd 13,134 (11%) bod ganddynt anhawster dysgu.

Tabl 1: Nifer y disgyblion a gwblhaodd Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru.

Nodweddion Sampl	Maint Sampl
<i>Rhywedd</i>	
Bachgen	56,527
Merch	54,901
<i>Grwpiau Blwyddyn Eang</i>	
Blynyddoedd 3 i 6	57,895
Blynyddoedd 7 i 11	57,272
<i>Ethnigrwydd</i>	
Gwyn	97,020
Grŵp Ethnig Cymysg / Lluosog	3,837
Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Asiaidd Prydeinig	4,002
Du / Du Cymreig / Du Prydeinig / Caribiaidd / Affricanaidd	1,761
Grŵp ethnig arall	1,107
<i>Siaradwr Cymraeg</i>	
Yn siarad Cymraeg	49,268
Ddim yn siarad Cymraeg	65,899

## Pawb

### Cyfranogiad Chwaraeon Wythnosol

Gweledigaeth y sector chwaraeon yw i bawb gael mwynhad gydol oes o chwaraeon, sy'n cynnwys cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd. Mae'r adran hon yn ystyried y gwahaniaeth mewn cyfranogiad wythnosol ar gyfer disgyblion anabl a disgyblion sydd â nam o gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl a disgyblion heb nam.

Roedd 35% o'r disgyblion a nododd fod ganddynt anabledd neu nam yn cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm. Mae'r ffigur hwn yn debyg ar gyfer y rhai a nododd fod ganddynt anhawster dysgu (35%). O gymharu, dywedodd 40% (114,000) o boblogaeth Cymru o ddisgyblion heb anabledd neu nam eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Roedd 12% o'r disgyblion hynny a nododd fod ganddynt anabledd neu nam yn cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm ddwywaith yr wythnos. Roedd 13% o boblogaeth Cymru o ddisgyblion heb anabledd neu nam yn dweud eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm ddwywaith yr wythnos.

Ar gyfer cymryd rhan mewn chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm unwaith yr wythnos, roedd plant a nododd fod ganddynt anabledd neu nam yr un mor debygol o wneud hynny â'r rhai heb anabledd (12%).

Fodd bynnag, ar gyfer cymryd rhan mewn dim gweithgarwch chwaraeon rheolaidd y tu allan i'r cwricwlwm, roedd hyn yn uwch ar gyfer y rhai a nododd fod ganddynt anabledd neu nam (42%) o gymharu â'r rhai na nododd fod ganddynt anabledd neu nam (35%).

Mae 47% o ddisgyblion sydd ag anabledd neu nam yn cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clwb cymunedol unwaith yr wythnos o leiaf, o gymharu â 57% o ddisgyblion heb anabledd neu nam.

Mae disgyblion ag anabledd neu nam yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 38) na disgyblion heb anabledd neu nam. Mae 35% o ddisgyblion ag anabledd neu nam yn cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 40% o ddisgyblion heb anabledd neu nam.


Felly, o'r data hyn, mae posib casglu bod disgyblion sy'n nodi bod ganddynt anabledd neu nam yn llai tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm a

chwaraeon mewn clwb cymunedol, ac yn fwy tebygol o beidio â chymryd rhan yn rheolaidd mewn unrhyw chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm.

*Tabl 2: Lefelau cyfranogiad wythnosol ar gyfer disgyblion anabl, disgyblion â nam, a disgyblion ag anhawster dysgu.*

	Dim gweithgarwch rheolaidd	Unwaith yr wythnos	Dwywaith yr wythnos	Tair gwaith yr wythnos neu fwy
Disgyblion anabl a'r rhai â nam	42%	12%	12%	35%
Disgyblion nad ydynt yn anabl a'r rhai heb nam	35%	12%	14%	41%
Disgyblion ag anhawster dysgu	42%	12%	12%	35%
Disgyblion heb anhawster dysgu	34%	12%	14%	41%


**Graff 1: Lefelau cyfranogiad wythnosol ar gyfer disgyblion anabl, disgyblion â nam, a disgyblion ag anhawster dysgu.**



**Tabl 3: Canran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos wedi'u trefnu yn ôl y rhanbarthau yng Nghymru.**

	Canran y disgyblion sydd ag anabledd neu nam sy'n cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos	Canran y disgyblion heb anabledd neu nam sy'n cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos
Canolbarth y De	35%	40%
Canolbarth Cymru	33%	41%
Gorllewin Cymru	36%	43%
Gwent	37%	38%
Gogledd Cymru	38%	40%

Graff 2: Canran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos wedi'u trefnu yn ôl y rhanbarthau yng Nghymru.



Tabl 4: Ymwneud disgyblion â chwaraeon gan ystyried y gwahanol ddulliau y mae disgyblion anableddol a disgyblion sydd â nam yn eu defnyddio i gymryd rhan mewn chwaraeon.

	Cymryd rhan mewn unrhyw leoliad	Unrhyw gyfranogiad allgyrsiol	Unrhyw gyfranogiad mewn clwb cymunedol	Unrhyw gyfranogiad yn 'rhywle arall'	Cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos (clwb cymunedol a / neu allgyrsiol)	Cymryd rhan mewn clwb cymunedol unwaith yr wythnos o leiaf
Dim Anabledd neu Nam	97%	50%	65%	92%	40%	57%
Anabledd neu Nam	97%	52%	61%	91%	35%	47%
Defnyddio cadair olwyn (dim ond ar gyfer chwaraeon)*	97%	77%	74%	84%	45%	59%
Defnyddio cadair olwyn (ar gyfer chwaraeon ac yn yr ysgol)*	99%	68%	78%	84%	42%	49%
Defnyddio cadair bŵer*	97%	70%	74%	87%	44%	42%
Eistedd ar y llawr neu ar gadair*	98%	65%	63%	91%	37%	48%
Sefyll*	98%	52%	62%	93%	36%	51%
Gyda chefnogaeth gan berson arall*	97%	59%	58%	91%	32%	47%
Gyda pherson sy'n dywysydd i mi*	99%	64%	66%	93%	34%	47%
Defnyddio laith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer cyfathrebu*	98%	66%	74%	89%	46%	54%
Defnyddio Makaton ar gyfer cyfathrebu*	100%	76%	75%	89%	40%	46%
Defnyddio prosthetig, fel llafn neu fraich*	99%	69%	75%	91%	58%	63%
Defnyddio offer, fel ffrâm neu gymorth cerdded*	96%	67%	67%	83%	36%	43%
Arall*	100%	61%	66%	93%	36%	45%
Gwell gen i beidio â dweud*	98%	54%	59%	94%	33%	39%

\* Ar gyfer y chwaraeon rydw i'n eu gwneud, rydw i fel arfer yn cymryd rhan ynddynt ...



Tabl 5: Croestoriad anabledd a nam gyda...

		<i>Cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos (clwb cymunedol a / neu allgyrsiol)</i>	<i>Cymryd rhan mewn clwb cymunedol unwaith yr wythnos o leiaf</i>
Anabledd neu Nam		35%	47%
Anabledd neu Nam a...	FSM4 (mwyaf difreintiedig)	30%	40%
	Merch	36%	49%
	'Arall' (rhywedd)	30%	43%
	Di-Gymraeg	30%	43%
	Grŵp Ethnig Cymysg neu Luosog	47%	56%
	Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Asiaidd Prydeinig	34%	43%
	Du / Du Cymreig / Du Prydeinig / Caribiaidd / Affricanaidd	38%	41%
	Grŵp Ethnig Arall	34%	40%

Mae'r tablau hyn yn amlygu bod nifer y disgyblion anabl a'r disgyblion sydd â nam sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd y tu allan i'r cwricwlwm yn eithriadol isel ac mae angen gwneud mwy i roi cyfleoedd i ddisgyblion anabl gymryd rhan mewn chwaraeon. Yn benodol, darparu mwy o bobl i gefnogi disgyblion anabl i gael mynediad i chwaraeon a chefnogi disgyblion anabl o gefndiroedd difreintiedig, yn ogystal â'r rhai o'r cymunedau LGBTQI+.

## Gydol Oes

### Cyfranogiad mewn Chwaraeon

Mae gweledigaeth y sector yn canolbwyntio ar bawb yn cael mwynhad gydol oes o chwaraeon gyda phrofiadau yn yr ysgol a phrofiadau cynnar o chwaraeon yn ysbrydoli plant i ddal ati i fwynhau chwaraeon gydol oes. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar greu mwynhad o chwaraeon a fydd yn para gydol oes.

Roedd 63% o'r disgyblion a nododd fod ganddynt anabledd neu nam yn hyderus wrth roi cynnig ar weithgaredd neu gamp newydd, o gymharu â 71% o ddisgyblion heb anabledd neu nam yn hyderus wrth roi cynnig ar weithgareddau a chwaraeon newydd.

Ar gyfer disgyblion a nododd fod ganddynt anabledd neu nam, mae'r ganran fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn sefyll neu'n cerdded gyda chanran fawr o ddisgyblion yn cael cymorth gan berson arall.

*Tabl 6: Canran y disgyblion gyda'r fformat maent yn cymryd rhan mewn chwaraeon ynddo fel rheol.*

Ar gyfer y chwaraeon rydw i'n eu gwneud, rydw i fel rheol yn cymryd rhan ynddyn nhw...	Canran y disgyblion
Yn defnyddio cadair olwyn (ar gyfer chwaraeon yn unig)	3.1
Yn defnyddio cadair olwyn (ar gyfer chwaraeon ac yn yr ysgol)	2.4
Yn defnyddio cadair bŵer	2.1
Yn eistedd ar y llawr neu ar gadair	5.0
Yn sefyll	51.2
Gyda chefnogaeth gan berson arall	10.5
Gyda pherson sy'n dywysydd i mi	5.2
Yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gyfer cyfathrebu	2.9
Yn defnyddio Makaton ar gyfer cyfathrebu	2.0
Yn defnyddio prosthetig, fel llafr neu fraich	1.4
Yn defnyddio offer, fel ffrâm neu gymorth cerdded	1.7
Arall	2.8
Gwell gen i beidio â dweud	14.0

## Addysg Gorfforol

Roedd 47% o ddisgyblion a nododd fod ganddynt anabledd neu nam yn credu bod eu gwersi AG a chwaraeon ysgol wedi eu helpu 'yn fawr' i gael ffordd o fyw iach. Roedd 53% o ddisgyblion heb anabledd neu nam yn credu bod eu gwersi AG a chwaraeon ysgol wedi eu helpu 'yn fawr' i gael ffordd o fyw iach.

Roedd 19% o ddisgyblion a nododd fod ganddynt anabledd neu nam yn credu bod pobl yn gwrando 'bob amser' ar eu syniadau ar gyfer AG a chwaraeon ysgol. Mae'r ffigur hwn yn is ar gyfer y rhai heb anabledd neu nam, gan mai dim ond 15% oedd yn credu bod pobl yn gwrando 'bob amser' ar eu syniadau ar gyfer AG a chwaraeon ysgol.

Felly, roedd disgyblion a nododd fod ganddynt anabledd neu nam yn llai tebygol o gredu bod eu gwersi AG yn eu helpu i gael ffordd o fyw iach. Yn ogystal, roeddent yn teimlo mwy bod pobl yn gwrando ar eu syniadau ar gyfer AG a chwaraeon ysgol na disgyblion heb anabledd. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn isel iawn ac argymhellir bod athrawon yn ystyried cynnwys mwy ar y disgyblion yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch AG a chwaraeon ysgol.

*Tabl 7: I ba raddau yn eich barn chi mae gwersi AG a chwaraeon yn eich helpu chi i gael ffordd o fyw iach yn seiliedig ar anabledd a nam?*

	Anabledd / Nam	Dim Anabledd / Nam
I ba raddau yn eich barn chi mae gwersi AG a chwaraeon yn eich helpu chi i gael ffordd o fyw iach?		
Llawer	47%	52%
Ychydig	32%	34%
Dim o gwbl	9%	7%
Dydw i ddim yn gwybod	12%	8%

*Tabl 8: Nifer y disgyblion anabl a'r rhai sydd â nam sy'n gwirfoddoli mewn chwaraeon yn yr ysgol neu yn y gymuned.*

Ydych chi'n gwirfoddoli neu'n helpu gyda chwaraeon yn yr ysgol neu yn eich cymuned?	Anabledd / Nam	Dim Anabledd / Nam
Ydw	3,917 o ddisgyblion	67,323 o ddisgyblion
Nac ydw	12,035 o ddisgyblion	216,553 o ddisgyblion

\* cyfrifiadau wedi'u pwysoli yw'r rhain (h.y., wedi'u pwysoli i fod yn gynrychioliadol)

## Galw am Fwy o Chwaraeon

Gweledigaeth y sector yw i bawb gael mwynhad o chwaraeon am oes. Mae'r adran hon yn edrych ar y galw a'r cymhellion sydd gan ddisgyblion i wneud mwy o chwaraeon.

*Mae gan 59% o ddisgyblion ag anabledd neu nam alw heb ei fodloni am chwaraeon, o gymharu â 55% o ddisgyblion heb anabledd neu nam. Mae galw heb ei fodloni yn cyfeirio at y rhai nad ydynt yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos, ond sydd â galw i wneud mwy o chwaraeon.*

Y tair prif gamp y mae galw amdanynt ymhlith disgyblion ag anabledd neu nam yw nofio, pêl fasedd a beicio.

Gofynnodd Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 i ddisgyblion ddewis ymatebion i'r cwestiwn 'Byddwn yn gwneud mwy o chwaraeon pe bai...'. Y tri phrif ymateb a ddewiswyd gan ddisgyblion ag anabledd neu nam oedd: 'Pe bai mwy o gyfleoedd chwaraeon sy'n fy siwtio i', 'Pe bai gen i fwy o amser' a 'Pe bawn i'n fwy hyderus'.

Tabl 9: Ffyrdd o gefnogi disgyblion anabl i wneud mwy o chwaraeon.

"Byddwn yn gwneud mwy o chwaraeon pe bai..."	Anabledd / Nam	Dim Anabledd / Nam
Pe bai mwy o gyfleoedd chwaraeon sy'n fy siwtio i	34%	37%
Pe na bai raid i mi fynd adref ar y bws ysgol	7%	6%
Pe bai gen i fwy o amser	29%	37%
Pe bai'n rhatach	17%	17%
Pe bai'n haws cyrraedd yno	19%	19%
Pe bai gen i'r offer sydd arnaf ei angen	16%	16%
Pe bai'r llefydd rydw i'n cymryd rhan mewn chwaraeon ynddyn nhw yn well	10%	10%
Pe bai bechgyn a merched yn gwneud chwaraeon neu AG ar wahân	7%	9%
Pe bai bechgyn a merched yn gwneud chwaraeon neu AG gyda'i gilydd	9%	9%
Pe bawn i'n mwynhau AG yn fwy	17%	15%
Pe bawn i'n mwynhau chwaraeon yn fwy	15%	15%
Pe bai mwy o bobl mewn chwaraeon yn edrych fel fi	6%	5%
Pe bawn i'n fwy hyderus	21%	25%
Pe bawn i'n well mewn chwaraeon	18%	20%
Pe bawn i'n gallu rheoli fy mislif yn well	5%	5%
Pe bai rhywun arall yn mynd gyda mi	18%	23%

Dydw i ddim angen nac eisiau cymryd rhan mewn mwy o chwaraeon	12%	9%
Rhywbeth arall	9%	6%

O'r tabl hwn ac ymatebion y disgyblion mae'n amlwg bod disgyblion anabl eisiau gwneud mwy o chwaraeon ac maent yn galw am ddarparu mwy o gyfleoedd iddynt sy'n addas ar eu cyfer. O'r herwydd, mae angen mwy o gyfleoedd chwaraeon nad ydynt yn seiliedig ar y cwricwlwm sy'n bodloni anghenion disgyblion anabl.

## Mwynhad

### Mwynhad o Chwaraeon

Mae gweledigaeth y sector yn canolbwyntio ar greu ystod eang o brofiadau cadarnhaol fel bod pawb yn gallu mwynhau chwaraeon. Mae'r adran hon yn edrych ar fwynhad o chwaraeon mewn AG, clybiau allgyrsiol a chlybiau cymunedol ar gyfer disgyblion anabl a disgyblion sydd â nam o gymharu â disgyblion nad ydynt yn anabl a disgyblion heb nam.

Pan ofynnwyd i ddisgyblion a oeddent yn mwynhau gwersi AG, nododd 55% o'r disgyblion a ddywedodd fod ganddynt anabledd neu nam eu bod yn mwynhau AG yn fawr. O gymharu, dywedodd 58% o ddisgyblion heb anabledd neu nam eu bod yn mwynhau AG yn fawr. Felly, mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith bod disgyblion sy'n nodi bod ganddynt anabledd neu nam yn llai tebygol o fwynhau AG yn fawr.

Ar draws lleoliadau, mae disgyblion heb anabledd neu nam yn fwy tebygol o fwynhau chwaraeon 'yn fawr' na disgyblion ag anabledd neu nam.


*Tabl 10: Mwynhad o chwaraeon mewn gwahanol leoliadau wedi'u trefnu yn ôl anabledd / nam.*

	Mwynhad 'mawr' o AG	Mwynhad 'mawr' o chwaraeon allgyrsiol	Mwynhad 'mawr' o chwaraeon clwb cymunedol
Disgyblion anabl neu sydd â nam	53%	36%	40%
Disgyblion nad ydynt yn anabl neu heb nam	58%	40%	48%

Tabl 11: Mwynhad o wersi AG, chwaraeon ar ôl ysgol, chwaraeon yn y gymuned, y tu allan i'r ysgol, a hyder i roi cynnig ar chwaraeon newydd ar gyfer disgyblion anabl a disgyblion sydd â nam.

	Anabledd / Nam	Dim Anabledd / Nam
Faint ydych chi'n mwynhau gwersi AG?		
Yn fawr	53%	58%
Ychydig	35%	35%
Dim o gwbl	12%	7%
Faint ydych chi'n mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clybiau ar ôl ysgol neu yn ystod amser cinio?		
Yn fawr	36%	40%
Ychydig	22%	25%
Dim o gwbl	7%	5%
Dydw i ddim yn cymryd rhan mewn chwaraeon ar ôl ysgol nac mewn clybiau amser cinio	34%	30%
Faint ydych chi'n mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon mewn clwb cymunedol, pan nad ydych chi yn yr ysgol?		
Yn fawr	40%	48%
Ychydig	21%	23%
Dim o gwbl	9%	6%
Dydw i ddim yn cymryd rhan mewn chwaraeon pan nad ydw i yn yr ysgol	30%	23%
Faint ydych chi'n mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon yn rhywle arall sydd y tu allan i'r ysgol a chlybiau cymunedol?		
Yn fawr	51%	57%
Ychydig	26%	27%
Dim o gwbl	6%	4%
Dydw i ddim yn cymryd rhan mewn chwaraeon pan nad ydw i yn yr ysgol	16%	12%
Pa mor hyderus ydych chi wrth roi cynnig ar chwaraeon newydd?		
Hyderus iawn	29%	28%
Eithaf hyderus	34%	43%
Ddim yn hyderus iawn	24%	22%
Ddim yn hyderus o gwbl	13%	8%

Graff 3: Mwynhad o chwaraeon mewn gwahanol leoliadau wedi'u trefnu yn ôl anabledd / nam.



### Ymwneud â Chwaraeon Penodol

Mae'r adran hon yn ystyried pa chwaraeon y tu allan i'r ysgol y mae disgyblion anabl a disgyblion sydd â nam yn cymryd rhan ynddynt amlaf.

Y tair prif gamp y mae disgyblion sydd ag anabledd neu nam yn cymryd rhan ynddynt unwaith yr wythnos o leiaf mewn clwb cymunedol yw pêl droed, nofio a rygbi.

Tabl 12: Ffigurau canran y disgyblion a nododd fod ganddynt anabledd neu nam sy'n ymwneud â chlybiau cymunedol unwaith yr wythnos o leiaf.

Camp Clwb Cymunedol	Cyfranogiad canran y disgyblion a nododd fod ganddynt anabledd neu nam
Saethyddiaeth	27.1
Athletau	25.4
Badminton	29.3
Pêl Fasged	51.9
BMX	27.6
Boccia	6.7



Bowlio (nid bowlio deg)	19.7
Bocsio	25.7
Canwio neu Gaiacio	21.4
Crwydro Ogofâu	11.7
Codi Hwyl Mewn Gemau	8.4
Dringo	32.2
Criced	33.1
Cyrlio	4.8
Beicio	54.2
Dawns	39.6
Pêl Osgoi	43.0
Ffensio	7.4
Hoci Maes	13.5
Pysgota neu Enweirio	19.8
Dosbarthiadau Ffitrwydd (e.e. aerobics, ioga, cylchedau)	26.8
Pêl Droed	62.5
Pêl Gôl	5.4
Golff	33.3
Gymnasteg	19.4
Marchogaeth Ceffylau	20.1
Hoci lâ	6.1
Jiwdo	9.1
Carate	17.7
Lacrosse	3.5
Achub Bywyd	12.8
Chwaraeon Modur	23.6
Beicio Mynydd	25.0
Pêl Rwyd	24.2
Padlfyrddio	18.5
Parkour	29.1
Pŵl neu Snwcer	41.9
Chwaraeon Rholer	15.0
Rownderi neu Bêl Fas neu Bêl Feddal	33.7
Rhwyfo	10.6
Rygbi	37.7
Rhedeg neu Loncian	66.9

Hwyllo	9.3
Sglefrfyrddio	23.5
Chwaraeon Eira	10.3
Sboncen	11.9
Syrffio	14.9
Nofio	62.0
Tennis Bwrdd	37.2
Saethu Targedau	19.4
Tennis neu Dennis Byr	34.9
Trampolinio	42.8
Triathlon	7.8
Pêl Foli	16.5
Polo Dŵr	14.1
Codi Pwysau	30.8
Pêl Fasged Cadair Olwyn	5.5
Rygbi Cadair Olwyn	4.7
Tennis Cadair Olwyn	5.2
Gwyntsyrrffio	6.3
Reslo	16.1
Chwaraeon Eraill	12.9

## Darparu Chwaraeon

### Ymatebion Athrawon

Dywedodd dros dri chwarter yr athrawon fod ganddynt ofod hygyrch, eu bod yn hyderus wrth addasu tasgau a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio, a'u bod yn defnyddio pobl ychwanegol i gefnogi cynnwys disgyblion anabl / disgyblion sydd â nam neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Fodd bynnag, mae llai na dwy ran o dair o athrawon yn dweud bod ganddynt yr offer angenrheidiol i alluogi cynnwys disgyblion anabl / disgyblion sydd â nam neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Gofynnwyd i athrawon hefyd a oedd cyfle i ddisgyblion anabl / disgyblion sydd â nam neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gymryd rhan mewn gwersi AG. Ymatebodd 92% o athrawon drwy ddweud 'Oes, drwy'r amser', gyda 6% arall wedi ymateb drwy ddweud 'Oes, rhywfaint o'r amser'. Felly mae hyn yn dangos bod athrawon yn hyderus ac yn gwybod sut i gyflwyno AG gynhwysol, ac eto, nid oes gan 40% o athrawon yr offer sydd arnynt ei angen i gyflwyno gwersi AG cynhwysol.

Tabl 13: Darparu chwaraeon i ddisgyblion ag anabledd, nam neu anhawster dysgu.

	Oes / Ydw
Oes gennych chi le hygyrch yn yr ysgol i gyflwyno'r holl weithgareddau yn gynhwysol ar gyfer disgyblion anabl / disgyblion sydd â nam neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?	87%
Ydych chi'n hyderus wrth addasu tasgau a gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i gynnwys disgyblion anabl / disgyblion sydd â nam neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn ystyrlon?	83%
Oes gennych chi'r offer yn yr ysgol sy'n galluogi cynnwys disgyblion anabl / disgyblion sydd â nam neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?	60%
Ydych chi'n defnyddio pobl ychwanegol i gefnogi cynnwys disgyblion anabl / disgyblion sydd â nam neu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	75%

## Argymhellion

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Arolwg Chwaraeon Ysgol mae'r argymhellion canlynol wedi cael eu gwneud gan Chwaraeon Anabledd Cymru i wella'r profiad o chwaraeon a gweithgarwch corfforol ymhlith disgyblion anabl yng Nghymru.

- Mae angen cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion anabl gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, yn benodol cyfleoedd sy'n addas ar gyfer disgyblion anabl ac sy'n diwallu anghenion disgyblion sydd â nam. Mae hyn yn cynnwys cynyddu argaeledd cyfleoedd chwaraeon allgyrsiol, clybiau cymunedol, a chyfleoedd eraill y tu allan i'r cwricwlwm. Yn benodol, mae angen canolbwyntio ar greu cyfleoedd niferus i blant fod yn actif yn rheolaidd drwy gydol yr wythnos (e.e., mwy nag unwaith yr wythnos).
- Mae angen mwy o gefnogaeth i blant anabl o ardaloedd difreintiedig yn gymdeithasol yng Nghymru a'r rhai sy'n ystyried bod ganddynt rywedd 'arall', gan ei bod yn ymddangos mai'r disgyblion anabl hyn yw'r rhai lleiaf tebygol o fod yn actif.
- Mae disgyblion anabl yn llai tebygol o fwynhau AG a chwaraeon allgyrsiol a chymunedol ac felly mae angen edrych ar ffyrdd y gall disgyblion anabl gael mwy o fwynhad o chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Mae angen rhoi'r hyder a'r cyfle i ddisgyblion anabl roi cynnig ar gyfleoedd chwaraeon newydd.
- Mae angen sicrhau bod mwy o offer chwaraeon ar gael i athrawon allu creu mwy o gyfleoedd AG a chwaraeon cynhwysol i ddisgyblion anabl.